**Disgrifiad Swydd**

# Rheolwr Gwirfoddolwyr

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Amgueddfa Cymru gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr yn pennu cyfeiriad strategol y sefydliad ac yn sicrhau y caiff ei hadnoddau eu rheoli yn briodol.

Caiff Amgueddfa Cymru ei harwain gan Uwch Dîm Rheoli (SMT) yn cynnwys Rheolwr Cyffredinol a Phedwar Cyfarwyddwr Cyfadran. Mae Gweithgor Cyfunol (JEG), sy'n cynnwys rheolwyr adrannau a staff, yn cymeradwyo polisïau ac yn adolygu projectau a mentrau pwysig.

Mae gan Amgueddfa Cymru wyth safle ar draws Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Wlân Cymru, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a'r Ganolfan Casgliadau Cenedlaethol.

Yn 2015 cytunodd Amgueddfa Cymru ar Weledigaeth newydd i'r dyfodol er mwyn "**ysbrydoli pobl, newid bywydau**". Ein pwrpas yw defnyddio ein hamgueddfeydd a'n casgliadau i ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.

Hanfod ein gwaith yw bod diwylliant yn adnodd a gaiff ei greu gan bobl a chymunedau. Rydyn ni'n rhan o'r gymdeithas y daw ein casgliadau a'n hadnoddau ohoni, a chânt eu hadnewyddu yn barhaus drwy ein gwaith gyda'r cyhoedd. Rydyn ni'n atebol i'n cenedl am ein defnydd o'r adnoddau hyn.

Rydyn ni wedi ymrwymo i bum peth er mwyn cyflawni'r Weledigaeth. Nod gwaith pob adran ac aelod o staff yw cyflawni'r ymrwymiadau hyn.

**Gwneud gwahaniaeth i Gymru**: newid bywydau trwy weithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol i greu Cymru hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, lle mae diwylliant yn hygyrch i bawb a'r economi'n ffynnu.

**Profiad amgueddfa**: mae ymwelwyr yn cael profi amgueddfeydd, arddangosfeydd, a gofodau cyhoeddus o ansawdd uchel lle gallant ddysgu a mwynhau.

**Profiad ar-lein**: mae defnyddwyr yn cael profi amgueddfa ddigidol hygyrch a chydgysylltiedig gan ymgysylltu, bod yn greadigol a dysgu.

**Addysg a chreadigrwydd**: mae gan bawb gyfoeth o gyfleoedd i ddysgu, ymchwilio a chreu.

**Cyfranogiad a chynhwysiant**: mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trawsddiwylliannol, cynhwysol a hygyrch a luniwyd ganddynt.

**Teitl y swydd**
Rheolwr Gwirfoddolwyr

**Strwythur rheoli**
Rheolwr llinell deiliad y swydd o ddydd i ddydd fydd Pennaeth Sain Ffagan, gyda chymorth gan Bennaeth Adnoddau Dynol. Bydd deiliad y swydd yn rheolwr llinell ar y Cydlynydd Gwirfoddolwyr. Caiff yr Adran ei chefnogi gan Swyddog Gweinyddol (rhan-amser).

**Prif ddiben y swydd:**
Arwain Rhaglen Wirfoddoli Amgueddfa Cymru mewn modd ysbrydoledig, gan gynnal safonau perfformiad uchel, meddwl strategol ac arferion gorau drwy'r sefydliad. Bydd y Rheolwr Gwirfoddolwyr yn adeiladu ac yn cynnal cysylltiadau cryf o fewn a thu allan i'r sefydliad er mwyn sicrhau bod amcanion strategol yn cael eu cyflawni yn effeithiol; bod cyfraniad gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod a'i ddathlu; a'n bod yn darparu profiad ardderchog i'n gwirfoddolwyr.

**Prif Dasgau a Chyfrifoldebau**

1. Datblygu a chynnal strategaeth wirfoddolwyr ar gyfer Amgueddfa Cymru er mwyn helpu i gyflawni ein targedau ac amcanion strategol.
2. Datblygu a chynnal perthynas hirdymor ardderchog gyda phartneriaid o'r gymuned, sefydliadau trydydd sector a sefydliadau addysgol i sicrhau hygyrchedd a rhannu arferion da.
3. Cydweithio â staff ac adrannau ar draws y sefydliad, yn ogystal â'n hundebau llafur, i hyrwyddo gwerth gwirfoddoli, adnabod cyfleoedd newydd, cefnogi ein gwaith a darparu profiad gwych i'n gwirfoddolwyr.
4. Sefydlu metrigau i ennill dealltwriaeth, ymchwil a thystiolaeth ynghylch ein gwirfoddolwyr presennol a gwirfoddolwyr y dyfodol, ac i fesur effaith a chyfraniad ein gwirfoddolwyr.
5. Edrych ar gyfleoedd am gyllid a rhoi arweiniad i gydweithwyr wrth wneud ceisiadau.
6. Arwain y rhaglen wirfoddoli mewn modd ysbrydoledig, gan gynnal safonau perfformiad uchel ac arferion gorau ar draws Amgueddfa Cymru.
7. Datblygu a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a safonau i gefnogi ein rhaglen wirfoddoli a sicrhau bod arferion da yn cael eu dilyn wrth reoli, ysgogi, cydnabod, recriwtio a diogelu gwirfoddolwyr, yn ogystal â sicrhau ein bod yn cadw ein safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.
8. Cynnig cefnogaeth ac arweiniad arbenigol wrth reoli, datrys problemau, cydnabod a chadw gwirfoddolwyr ar draws y sefydliad.
9. Datblygu a darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu o safon ac adnoddau cysylltiedig ar gyfer gwirfoddolwyr a'r adrannau y maent yn gweithio ynddynt.
10. Rheoli a darparu cefnogaeth effeithiol i'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr a rheoli adnoddau'r adran.

**Corfforaethol**

1. Ymroi yn llawn i gefnogi egwyddorion cyfle cyfartal fel yr amlinellir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y sefydliad a'u gweithredu.
2. Sicrhau bod yr adran yn cydymffurfio â pholisïau'r Amgueddfa ar Gynaliadwyedd a'r Iaith Gymraeg.
3. Cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill y gallai eich gweithredoedd, neu eich diffyg gweithredu, effeithio arnynt, a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch fel sy'n briodol.
4. Fel rhan o'ch telerau cyflogaeth, efallai y gofynnir i chi wneud dyletswyddau eraill a/neu weithio oriau eraill fel sy'n rhesymol, yn unol â'ch gradd neu'ch lefel cyfrifoldeb cyffredinol o fewn y sefydliad.

**Canlyniadau**

1. Rhaglen wirfoddoli safonol a strategol sy'n helpu i gyflawni Gweledigaeth Amgueddfa Cymru.
2. Mae Amgueddfa Cymru yn darparu profiad ardderchog i wirfoddolwyr ac yn sefydliad o ddewis i wirfoddolwyr potensial a rhai presennol.
3. Mae perthynas gref wedi'i ffurfio a'i chynnal gyda phartneriaid newydd a rhai presennol.
4. Mae ein rhaglen wirfoddoli yn hygyrch i bawb ac mae ein gwirfoddolwyr yn gynrychioliadol o'r cymunedau y mae ein hamgueddfeydd yn rhan ohonynt.

## Manyleb y Person

**Sgiliau Penodol i'r Swydd**

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus arddangos y canlynol (gweler y "**Canllawiau Recriwtio**" am gyngor ar sut i lenwi'r ffurflen gais):

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| **Gwybodaeth Ofynnol** | |
| Gwybodaeth o arferion da a deddfwriaeth ym maes gwirfoddoli a rheoli gwirfoddolwyr a sut i'w rhoi ar waith, mewn cyd-destun treftadaeth a/neu trydydd sector os yn bosibl. | |
| Gwybodaeth gynhwysfawr o faterion rheoli yn ymwneud â recriwtio, ymgysylltu a chydnabod gwaith gwirfoddolwyr. | |
| Dealltwriaeth o egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth parthed gwaith Amgueddfa Cymru a'r gallu i'w rhoi ar waith yng nghyd-destun gwirfoddoli. | |
| **Profiad Gofynnol** | |
| Profiad profadwy o reoli gwirfoddoli a gwirfoddolwyr | Profiad o ganfod cyfleoedd cyllid a/neu weithio ar geisiadau am gyllid. |

| | |
|---|---|
| Profiad sylweddol o ysgrifennu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau mewn ffordd glir a hygyrch. | |
| Record brofadwy o ddatblygu a chynnal sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr. | |
| **Cymwysterau Gofynnol** | |
| | Gradd/Diploma neu gymhwyster cyfatebol. |
| **Sgiliau Gofynnol** | |
| Sgiliau arwain cryf, wedi'u datblygu mewn rôl rheoli gwirfoddolwyr yn ddelfrydol. | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu barodrwydd i ddysgu |
| Sgiliau rhyngbersonol ardderchog gyda'r gallu i ddwyn perswâd ar bobl yn ogystal â'r gallu i fod yn hyderus a phendant wrth herio arferion gwael, tra'n cynnal perthynas dda gyda rhanddeiliaid. | |
| Sgiliau profadwy mewn ymchwil a gwerthuso, gan gynnwys dylunio a gweithredu dulliau newydd, dadansoddi data a defnyddio metrigau i arddangos gwerth gwirfoddolwyr. | |
| **Ffactorau Personol Angenrheidiol** | |
| Agwedd gydweithredol at gyflawni amcanion a datrys problemau a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. | |
| Y gallu i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys ar benwythnosau a gwyliau banc yn ogystal ag ar safleoedd eraill ar draws Cymru. | |
| Diddordeb gwirioneddol mewn gweithio gyda phobl ac Amgueddfa Cymru. | |

## Cymwyseddau Penodol i'r Swydd Hon

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu dangos enghreifftiau o'r canlynol (gweler "**Canllawiau Recriwtio**" am gyngor ar sut i lenwi'r ffurflen gais):

| Cymhwysedd Craidd | Esiampl Ymddygiad |
|---|---|
| **Gweithio'n Bositif gydag Eraill** | Yn rhagweithiol wrth ymwneud ag eraill y tu hwnt i'w dîm a galw ar arbenigedd perthnasol er mwyn cyflawni amcanion Amgueddfa Cymru |
| **Croesawu Dysgu, Newid a Chreadigrwydd** | Meddwl yn ochrol i ddatrys problemau ac edrych ar faterion o safbwynt gwahanol.<br><br>Llywio agenda newid Amgueddfa Cymru a chreu amgylchiadau a chyfleoedd i unigolion a thimau ddatblygu i'w llawn botensial. |
| **Ymroddiad i Ganolbwyntio ar Gwsmeriaid** | Annog pawb i ehangu'r sylfaen gwirfoddolwyr drwy ymgysylltu â nhw ac ymateb iddynt. |

| | |
|---|---|
| **Cyrraedd Canlyniadau Effeithiol** | Hyrwyddo atebion ac arbrofi creadigol er mwyn cyflawni'r canlyniadau. |
| **Ymrwymiad i Amrywiaeth a Chyfrifoldebau Cymdeithasol** | Datblygu syniadau a chefnogi ymdrechion i sefydlu amgueddfeydd mwy cynhwysol. |

## Telerau ac amodau gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Cyflog Cychwynnol** | Bydd yr ymgeisydd yn cael ei benodi i'r pwynt cyflog isaf yn y radd hon fel arfer. |
| **Dyrchafiad Mewnol** | Penodir yr ymgeisydd i'r lefel isaf ar y raddfa hon fel arfer neu, lle byddai hyn yn arwain at gyflog sylfaenol is, i'r pwynt cynyddrannol nesaf fydd yn rhoi gwir gynnydd mewn cyflog sylfaenol. |
| **Hyd y Contract** | |
| **Oriau'r Contract** | 35 awr yr wythnos<br>(ond bydd 37 awr yn cael ei ystyried ar gyfer aelodau staff presennol sydd ar gytundeb llawn amser ar hyn o bryd). |
| **Cyfnod Prawf** | Mae cyfnod prawf o 3 mis yn berthnasol i'r swydd hon. |
| **Mae pob penodiad newydd yn ddibynnol ar dderbyn:** | • Geirda boddhaol<br>• Adroddiad meddygol<br>• Archwiliad Boddhaol o Euogfarnau Troseddol<br>• Prawf o'ch Hawl i Weithio yn y DU |

## Sut i wneud cais:

Dylai ymgeiswyr am y swydd lenwi'r ffurflen gais sydd ar gael ar dudalen Swyddi ein gwefan sef www.amgueddfacymru.ac.uk. Mae'r ffurflen yn rhoi cyfle i chi egluro sut mae eich cymwysterau, eich profiad a'ch rhinweddau personol yn eich gwneud yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd hon.

Dylech dychwelyd eich ffurflen i'r cyfeiriad ebost hwn:
ad@amgueddfacymru.ac.uk

neu ei phostio i'r:

Adran Adnoddau Dynol
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP
Ffôn: (029) 2057 3306 Ffacs: (029) 2057 3370

**Sylwer bod rhaid i bob cais am swydd ein cyrraedd erbyn 5pm ar y dyddiad cau.**
**Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar ôl hynny.**

---

**Bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflenni Archwilio Cefndir a Monitro cyn i ni brosesu eich cais.**

**Peidiwch ag anfon CV, dim ond ffurflenni cais gaiff eu hystyried.**

Yn anffodus, oherwydd y nifer o geisiadau a ddisgwylir ar gyfer y swydd hon, ni fydd yn bosibl i ni ysgrifennu'n bersonol at bob ymgeisydd aflwyddiannus. Mae croeso i ymgeiswyr ofyn am adborth dros y ffon neu drwy e-bost. Fodd bynnag, bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal fel arfer o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau.

Noder, bydd y gost o anfon y ffurflen gais ac unrhyw atodiadau yn ôl i'r Adran Adnoddau Dynol yn fwy na phris un stamp dosbarth cyntaf.

**Mae Amgueddfa Cymru yn gyflogwyr cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau o bob rhan o'r gymuned.**